



gwerth mewn gwahaniaeth
delivering on distinction

Polisi Iaith Gymraeg Menter Môn

Fersiwn 1.0

Am y polisi hwn

Mae Menter Môn wedi mabwysiadu'r egwyddorion na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Menter Môn yn gweithredu'r egwyddorion hyn wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Nid yw Menter Môn ymhlith y cyrff cyhoeddus y mae'n ofynnol iddynt fabwysiadu Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Er hynny, rydym yn ymwybodol bod disgwyliadau a dyheadau y cyhoedd ar Ynys Môn parthed gwasanaethau Cymraeg yn adlewyrchu'r arferion da a blaengar a ddatblygwyd gan yr awdurdod lleol a chyrrff cyhoeddus eraill dros y 30 mlynedd diwethaf wrth iddynt weithredu Cynlluniau Iaith gynt, a Safonau Iaith statudol bellach.

Gan hynny, bydd y mesurau yn y polisi hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod arfer dwyieithog da wedi ei normaleiddio ar draws y sector cyhoeddus ar yr Ynys, a bydd y polisi hwn yn cynnwys mesurau tebyg i'r Safonau Iaith a fabwysiadwyd gan gorff cyhoeddus mwyaf yr Ynys, sef Cyngor Ynys Môn.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau wedi eu cadw mewn lleoliad canolog ddigidol.

Hanes Adolygu

Mabwysiadwyd Polisi Iaith cyfredol Menter Môn ar 16 o Awst 2023. Ar dudalen 8 y Polisi hwnnw ceir y datganiad a ganlyn:

Adolygu
· Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn bob 5 mlynedd.
· Mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn wedi ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gael ei achredu a byddwn yn paratoi adroddiadau Monitro blynyddol ar ei weithrediad.

Lluniwyd y polisi uchod yn ystod cyfnod Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a oruchwyliwyd gan y Bwrdd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ers dyddiad mabwysiadu'r polisi hwnnw bu cryn newid yn y maes polisi iaith:

- Disodlwyd Deddf 1993 a diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Sefydlwyd swydd rheoleiddiwr i reoleiddio polisiau cyrff cyhoeddus ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg, sef Comisiynydd y Gymraeg.
- Disodlwyd y drefn a'i gwnaeth yn ofynnol i gyrff cyhoeddus baratoi a mabwysiadu Cynlluniau Iaith Gymraeg, ac yn ei lle sefydlwyd Safonau'r Gymraeg i'w mabwysiadu gan gyrff ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rheoleiddir gweithrediad y Safonau gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn i'r fframwaith polisi cyhoeddus, daeth yn amserol adolygu Polisi Iaith Gymraeg Menter Môn, gyda golwg ar fabwysiadu'r arferion dwyieithog gorau.

Bydd gweithrediad y polisi hwn yn cael ei fonitro'n barhaol, a bydd y polisi'n cael ei adolygu bob pum mlynedd.

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu :	2027
Cynhelir yr adolygiad gan:	Uwch dim Rheoli + Iaith Cyf

Manylion cyswllt:

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cysylltu â'r Cwmni mewn perthynas â'r Polisi hwn gysylltu â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol

Cyfeiriad : Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LR

Rhif Ffôn : 01248 752700
E-bost : ymholiadau@mentermôn.com

Gallwn ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar eich cais - defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg. I ddewis y fersiwn Saesneg, os ydych yn darllen y fersiwn electronig defnyddiwch y ddolen "English" ar ochr dde'r bar uchaf. Os ydych yn darllen copi papur, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda i gael copi o'r fersiwn Saesneg.

This document is available in Welsh. To access the Welsh version, if you are reading the electronic version of this text, please click on the "Cymraeg" link on the right-hand side of the top bar. If you are reading a paper copy, please use the above contact details to obtain a Welsh version.

Cynnwys		Tud.
1.0	Rhagarweiniad	6
1.1	Ynys Môn	6
1.2	Menter Môn	7
1.3	Cyngor Sir Ynys Môn a'r iaith Gymraeg	7
1.4	Gofynion ieithyddol arbennig yn codi o Brosiect 'Morlais'	8
1.5	Strategaeth iaith Llywodraeth Cymru	9
1.6	Mesur iaith Gymraeg (Cymru) 2011	10
1.7	Comisiynydd y Gymraeg	10
1.8	Safonau'r Gymraeg	10
1.9	Hybu'r Gymraeg	10
	Cyfrifoldeb am Weithredu'r Polisi	
1.10	Cyfrifoldeb Am Weithredu'r Polisi	11
2.0	Datganiad Polisi	11
3.0	Cynllunio Gwasanaethau Dwyieithog	12
3.1	Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg	11
3.2	Defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol Menter Môn	13
4.0	Cyflwyno Gwasanaethau Dwyieithog	15
4.1	Egwyddorion cyffredinol	15
4.2	Dyfarnu Contractau	15
4.3	Gwasanaethau ar ran y Cwmni neu un o'i Phrosiectau gan bartion eraill	16
4.4	Dyfarnu Grantiau	17
4.5	Cyflawni swyddogaethau statudol – Rheoleiddio	18
4.6	Partneriaeth (ffurfiol ac anffurfiol)	18
4.7	Cyd-ddarparu gwasanaethau	19

Cynnwys		Tud.
4.8	Cyrsiau a gynigir i'r Cyhoedd	19
5.0	Delio â'r cyhoedd	20
5.1	Delio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd	20
5.2	Gohebiaeth	20
5.3	Ffonio	21
5.4	Cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol	22
5.5	Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd (yn cynnwys cyflwyniadau ac ymgynghoriadau)	23
5.6	Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan y Cwmni	24
5.7	Cyfarfodydd eraill	24
5.8	Gwefannau, gwasanaethau ar-lein a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol	24
6.0	Wyneb cyhoeddus Menter Môn	25
6.1	Hunaniaeth Gorfforaethol	25
6.2	Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y Cwmni	25
6.3	Arwyddion	25
6.4	Enwau lleoedd	26
6.5	Systemau annerch cyhoeddus a negeseuon sain	26
6.6	Cyhoeddi, argraffu ac arddangos deunydd cyhoeddus	26
6.7	Taflenni, llyfrynau, ffurflenni a deunydd esboniadol	27
6.8	Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau	28
6.9	Hysbysebu a chyhoeddusrwydd	28
6.10	Hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau swyddogol	28
6.11	Deunydd gweledol a clywedol electronig	28
6.12	Gwaith marchnata	28
6.13	Hysbysebion swyddi	28
7.0	Gweithredu'r Polisi	29
7.1	Staffio	29
7.2	Cwynion a wneir gan aelod o staff y Cwmni	30
7.3	Disgyblu staff	31
7.4	Technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan y Cwmni, a'r fewnrwyd	31
7.5	Meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu	32
7.6	Recriwtio a Phenodi	34
7.7	Hyfforddiant	35
7.8	Y Gwasanaeth Cyfieithu	36
7.9	Pryderon a Chwynion	36
8.0	Hybu'r Gymraeg	37

Cynnwys

Tud.

9.0	Cadw Cofnodion	37
10.0	Materion Atodol	38
10.1	Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Polisi laith hwn	38
10.2	Cyhoeddi gweithdrefn gwyno	38
10.3	Cyhoeddi trefniadau goruchwyllo, hybu ayyb	39
10.4	Llunio adroddiad blynyddol	39
10.5	Rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y bwriedir cydymffurfio â Polisi laith hwn	39
10.6	Darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg	40
11.0	Gwella'r Gwasanaeth	40

1. Rhagarweiniad

1.1 Ynys Môn

Poblogaeth Ynys Môn, yn ôl Cyfrifiad 2021, yw 68,900¹. Dengys Cyfrifiad 2021 fod 55.8% (n. 37,413) o boblogaeth yr Ynys (dros 3 oed) yn siarad Cymraeg² o gymharu â 17.8% (n. 538,000) dros Gymru gyfan³. Er bod hyn yn gosod Môn yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac yn un o'r ddwy Sir yng Nghymru lle mae dros hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg, mae'n dangos gostyngiad o -1.4% (n. 1,155) ers Cyfrifiad 2011.⁴

1.2 Menter Môn

Sefydlwyd Menter Môn gan Gyngor Ynys Môn yn 1995 ond cafodd ei chofrestru yn gwmni annibynnol ym 1996.

Mae Menter Môn yn gwmni ddi-elw sydd, er ei henw, yn gweithredu cynlluniau ar draws Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'i gweithgareddau ym Môn a Gwynedd.

Yng gweddill y ddogfen hon, defnyddir y term “y Cwmni” gan amlaf i gyfeirio at Menter Môn. Mae'r termau “y Cwmni” a “Menter Môn” yn gyfystyr ac yn berthnasol i holl brosiectau amrywiol yn ogystal â gweinyddiaeth Menter Môn.

Mae gan y Cwmni fwrdd cyfarwyddwyr sydd yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn darparu cyfeiriad strategol i'r Cwmni .

Mae'r Cwmni'n ychwanegu gwerth at adnoddau'r ardal er budd trigolion lleol. Mae'r rhain yn cynnwys yr amgylchedd naturiol ac adeiladol, treftadaeth, iaith, pobl a chynnyrch amaethyddol.

Mae nifer y staff yn amrywio o yn ôl natur rhaglenni cyllido. Ar hyn o bryd mae'r Cwmni'n cyflogi dros 70 o staff yn ein swyddfeydd yn Llangefni a Phorthmadog.

Dros gyfnod o chwarter canrif a mwy, mae'r Cwmni wedi cydweithio â busnesau, cymunedau, y sector cyhoeddus ac unigolion er mwyn cyflawni prosiectau ystyrlon ac arloesol. Ers ei sefydlu mae Menter Môn wedi denu £70 miliwn i'r ardal. Mae'r arian wedi ei fuddsoddi mewn cynlluniau fel Llwybr Arfordirol Môn, cefnogi cynlluniau bwyd, adnewyddu adeiladu a gwarchod rhywogaethau cynhenid. Yn y mwyafrif o achosion ni fyddai'r ardal wedi derbyn cymorth oni bai am gais gan Fenter Môn.

¹ [Population and household estimates, Wales - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk/population-and-household-estimates/wales)

² Niferoedd siaradwyr Cymraeg Ynys Môn 2021: [TS033-2021-1.xlsx \(live.com\)](https://live.com/TS033-2021-1.xlsx) (ONS).

³ Ystadegau Iaith: [Welsh language, Wales - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk/welsh-language/wales)

⁴ Niferoedd a chanran siaradwyr Ynys Môn 2011: [Welsh speakers by local authority and broader age groups, 2001 and 2011 census \(gov.wales\)](https://gov.wales/welsh-speakers-by-local-authority-and-broader-age-groups-2001-and-2011-census)

Prosiectau Menter Môn

Gyda'i bersbectif hirdymor ar ddatblygu cymunedau a darparu atebion i sicrhau twf cynaliadwy, prif waith y Cwmni yw gweithredu fel symbylydd sy'n creu prosiectau a chynyddu cyfleoedd ar draws pum prif sector, sef:

- Cadwraeth a'r amgylchedd
- Bwyd ac amaeth
- Cymunedau llewyrchus
- Ynni adnewyddadwy
- Technoleg a busnes

Mae gan bob Prosiect ei staff a'i berthynas weinyddol â gweinyddiaeth ganolog y Cwmni.

Prosiectau'r Cwmni yw ei brif weithgaredd, ac mae ymrwymiadau a gofynion y Polisi Iaith hwn yn berthnasol i holl Brosiectau'r Cwmni.

1.3 Cyngor Sir Ynys Môn a'r iaith Gymraeg

Gan mai Cyngor Sir Ynys Môn a sefydlodd Fenter Môn yn y lle cyntaf cyn iddo ymsefydlu'n gwmni annibynnol, yn naturiol ddigon bu yna gyd-ddealltwriaeth a chydweithredu parod rhwng y Cyngor a'r Cwmni o'r cychwyn cyntaf.

Cyngor Sir Ynys Môn yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl ystod o wasanaethau llywodraeth leol i bobl Ynys Môn ers ei sefydlu ym 1996. Mae canolfan weinyddol y Sir yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

Gan mai'r Cyngor Sir yw'r corff cyhoeddus mwyaf a'r cyflogwr mwyaf ar yr ynys, ei bolisi ef ar yr iaith Gymraeg sy'n weithredol ym mhob darpariaeth o wasanaethau cyhoeddus ganddo ar hyd a lled yr Ynys. Mae'n bolisi sydd wedi ei hen sefydlu gan y bu'r Cyngor yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg statudol o 1996 hyd 2016 ac ers 2016 mae'n gweithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae gan y Cwmni swyddfeydd ym Mhorthmadog, Gwynedd hefyd a bu Cyngor Gwynedd yntau yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg statudol o 1996 hyd 2016 ac ers 2016 mae'n gweithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Felly, mae polisïau iaith Cynghorau Môn a Gwynedd yn debyg i'w gilydd i raddau helaeth yn y modd maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Ngwynedd.

Mae ehangder a defnydd helaeth gwasanaethau'r ddau Gyngor yn golygu bod y cyhoedd ar yr Ynys ac ar y tir mawr wedi gwerthfawrogi ac wedi hen arfer â derbyn ystod eang o wasanaethau Cymraeg o safon dda fel trefn normadol. Gyda hynny mewn golwg, mae Polisi Iaith Menter Môn yn anelu at gynnal safonau cyfuwch â rhai Cyngor Môn er sicrhau cysondeb wrth ymateb i ddisgwyliadau ac arferion y cyhoedd.

Mae'r Cynghorau a'r Cwmni fel ei gilydd yn cydnabod eu cyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith yn gymunedol, ac fel cyflogwyr maent yn ceisio denu siaradwyr Cymraeg i ymuno â'u gweithluoedd a'u cadw, fel y gallant ddarparu gwasanaethau dwyieithog o safon dda i'r cyhoedd.

1.4 Gofynion ieithyddol arbennig yn codi o Brosiect "Morlais"

1.4.1 Morlais yw prosiect mwyaf Menter Môn. Mae'r prosiect am sicrhau budd i gymunedau lleol a'r economi a helpu taclo newid hinsawdd trwy gynhyrchu trydan carbon isel o ynni adnewyddadwy. Mae'n brosiect ynni llif llanw sy'n rheoli ardal 35 km² o wely'r môr ger Ynys Cybi, Ynys Môn. Roedd rhan gyntaf y prosiect yn canolbwyntio ar geisio sicrhau caniatâd gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r parth. Roedd ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r gymuned a rhan-ddeiliad yn rhan allweddol o hyn. Cyflwynwyd y cais am ganiatâd yn yr hydref 2019, a chafwyd caniatâd ym mis Rhagfyr 2021.

Mae ail ran y prosiect yn rhoi'r isadeiledd yn ei le fel y gall datblygwyr technoleg ynni llanw osod eu dyfeisiadau yn y môr. Y bwriad yw datblygu'r safle gam wrth gam sy'n golygu mai fesul dipyn fydd dyfeisiadau yn cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau na fydd effaith negyddol ar fywyd gwyllt.

1.4.2 Gan fod Morlais yn brosiect mor sylweddol o ran ei effaith economaidd ac effaith gymdeithasol debygol ar Fôn, bu'n rhaid wrth Asesiad o Effaith Ieithyddol fel rhan o'r cais cynllunio, ac yn deillio o'r Asesiad hwnnw cafwyd "Strategaeth Lliniaru, Mwyafu a Monitro" parthed y Gymraeg. (*Welsh Language Mitigation, Optimisation and Monitoring Strategies ("WLMOMS")*).

1.4.3 Roedd Amod 16 yn y llythyr caniatâd gan Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2021 yn datgan :

"The following Welsh Language Mitigation, Optimisation and Monitoring Strategies ("WLMOMS") shall be submitted to and approved in writing by the LPA:

a) Prior to construction, a WLMOMS for the construction phase of the development shall be submitted to and approved in writing by the LPA; and

b) At least six Months prior to the operation of the development, a WLMOMS for the operational phase of the development shall be submitted to and approved in writing by the LPA.

*The development must be carried out and operated in accordance with the approved strategies."*⁵

⁵ Llythyr caniatâd y Gweinidog Newid Hinsawdd parthed cynllun Morlais, 10.12.2021.
Polisi Iaith Gymraeg Menter Môn Fersiwn 1.0

1.4.4 Roedd y “WLMOMS” a baratowyd i gydymffurfio â’r gofynion hyn yn cynnwys y gofynion hyn:

That Morlais adopts the Welsh language policy of Menter Môn and operates in accordance with the aims and objectives of the current Welsh language legislation and policy landscape (...). in order to ensure that:

- i. the development has a positive effect, rather than an adverse effect, on “opportunities for persons to use the Welsh language” locally; and*
- ii. that the Welsh language is treated “no less favourably than the English language” within the organisation and its operations.*
- iii. That Morlais establishes requirements on construction phase contractors to comply with Menter Môn’s Welsh language policy and establish a means of Monitoring compliance as part of contractual requirements.*

1.4.5 Yn ogystal, yn y WLMOMS a gymeradwywyd, un o’r “Additional Recommendations arising from Stakeholder Engagement” gyda Fforwm Iaith Môn oedd:

Establishing that Menter Môn adopts the Isle of Anglesey County Council Welsh Language Policy. That this policy is implemented in turn by Morlais and that Morlais encourages Contractors to also, as far as possible, adopt the same policy.⁶

1.4.6 Wrth baratoi’r Polisi Iaith hwn felly, mae’n gwbl eglur:

- bod rhaid i Bolisi Iaith Menter Môn fabwysiadu hyd y bo modd yr un mesurau ag sydd ym Mholisi Iaith Cyngor Môn;
- bod rhaid i Morlais yn ei dro weithredu yn unol â’r mesurau sydd ym Mholisi Iaith Menter Môn hyd y bônt yn berthnasol;
- bod rhaid i Morlais sicrhau bod ei gontractwyr yn gweithredu’r un mesurau sydd ym mholisi iaith Menter Môn hyd y bônt yn berthnasol;
- bod rhaid i holl Brosiectau eraill Menter Môn, ym mhob un o’r sectorau lle maent yn weithredol, weithredu yn unol â’r Polisi Iaith hwn hefyd.

Y ddogfen arweiniol i hyn oll felly yw Polisi Iaith Cyngor Sir Ynys Môn. Ar fesurau’r polisi hwnnw y seilir y ddogfen bolisi hon.

1.5 Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru

1.5.1 Mae'r Cwmni'n cefnogi amcanion Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru ac yn ystyried ei Pholisi Iaith Gymraeg fel cyfraniad lleol pwysig tuag at wireddu'r strategaeth genedlaethol ehangach honno a'i nod i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i 1 miliwn erbyn 2050.

⁶ Ibid., tud.7

1.6 Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

- 1.6.1 Nod y Mesur Iaith yw cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg gan gyrrff cyhoeddus. Mae'r Gymraeg bellach yn iaith swyddogol yng Nghymru yn sgil y Mesur yma a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2011. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ogystal â'r awdurdod lleol cyfagos, Cyngor Gwynedd, a phob awdurdod lleol arall a phob corff cyhoeddus arall yng Nghymru, wedi ymrwmo i weithredu'n gadarnhaol i ymgymryd â'u swyddogaethau yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- 1.6.2 Dyma'r cyd-destun polisi cyhoeddus y mae Menter Môn yn gweithredu ynddo, ac mae Polisi Iaith Menter Môn yn arddel yr arferion dwyieithog gorau er sicrhau cysondeb â'r awdurdodau lleol a'r prif gyrrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu yn ardaloedd gweithredu y Cwmni.

1.7 Comisiynydd y Gymraeg

1.7.1 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

1.8 Safonau'r Gymraeg

1.8.1 Mae'r polisi hwn yn ymlynu at fesurau a safonau tebyg i'r un Safonau Iaith y mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn gydymffurfio â hwy. Ceir rhestr o'r Safonau hynny ar wefan y Cyngor ac mae copïau papur, neu fformatau eraill, ar gael ar gais.

1.9 Hybu'r Gymraeg

1.9.1 Corfforaethol - Pencampwr Iaith a Gweithgor Iaith

- (i) Mae'r Cwmni wedi penodi Pencampwr Iaith ar ei Fwrdd Cyfarwyddwyr. Rôl y Pencampwr Iaith fydd hybu a rhoi cyfeiriad strategol i'r modd y mae'r Cwmni yn gweithredu'r polisi hwn.
- (ii) Bydd y Pencampwr Iaith yn cadeirio Gweithgor Iaith mewnol a fydd yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir y mesurau strategol ar waith ar draws y Cwmni.
- (iii) Rhoddir arweiniad i'r Gweithgor Iaith gan Brif Swyddog y Fenter Iaith neu swyddog penodedig arall a fydd yn gyfrifol am:
 - hyrwyddo'r Gymraeg yn gorfforaethol mewn modd trawsbynciol ac ar draws holl brosiectau'r Cwmni a'i Brosiectau;
 - goruchwyllo gweithrediad y Polisi hwn a chydymffurfiaeth ag ef;
 - sefydlu trefniadau monitro effeithiol;

- cyflwyno adroddiadau monitro bob 6 mis i'r Gweithgor Iaith, y Bwrdd Cyfarwyddwyr
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ac, er gwybodaeth, i Gyngor Sir Ynys Môn a Chomisiynydd y Gymraeg.

1.9.2 Cymunedol – Fforwm Iaith

1.9.2.1 Mae Fforwm Iaith partneriaethol yn bodoli ar lefel sirol er mwyn rhoi ffocws strategol i'r Iaith Gymraeg ar yr Ynys. Mae'r Fforwm yn gyfrifol am adnabod blaenoriaethau a llunio Strategaeth Iaith Gymraeg sirol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf lle rhoddir ffocws ar gynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

1.10 Cyfrifoldeb Am Weithredu'r Polisi

1.10.1 Bydd holl staff y Cwmni yn cyfrannu at weithredu'r polisi hwn.

1.10.2 Prif Swyddog y Fenter Iaith neu swyddog penodedig arall sy'n gyfrifol am gydlynu mesurau'r polisi iaith yn strategol ac yn gorfforaethol ac mae'n atebol yn y lle cyntaf i'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Pencampwr Iaith. Bydd Prif Swyddog y Fenter Iaith neu swyddog penodedig arall yn hyrwyddo gweithrediad y polisi hwn ac yn chwilio am gyfleoedd i gynghori ac annog prosiectau ac adrannau i brif ffrydio'r Gymraeg i bolisiau a phrosiectau newydd.

1.10.3 Bydd y Rheolwyr Prosiectau yn gyfrifol am sicrhau fod eu gwasanaethau a'u gwaith prosiect yn gweithredu yn unol â gofynion y polisi hwn.

2. Datganiad Polisi

2.1 Mae Menter Môn wedi mabwysiadu'r egwyddorion na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Y Gymraeg a'r Saesneg fydd ieithoedd swyddogol y Cwmni a bydd iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cwmni. Mae diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a datblygu'r defnydd ohoni oddi fewn ac oddi allan i'r Cwmni yn un o'i amcanion sylfaenol.

2.2 Bydd gweinyddiaeth a phrosiectau y Cwmni yn seiliedig ar y ddwy egwyddor a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

3. Cynllunio Gwasanaethau Dwyieithog

3.1 Ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg

- 3.1.1 Sicrheir bod unrhyw gynlluniau, mentrau neu bolisiau a fabwysiedir gan y Cwmni yn cydymffurfio â gofynion y polisi hwn.
- 3.1.2 Bydd cyfeiriad at y polisi hwn mewn unrhyw brosiectau, cynlluniau, mentrau neu bolisiau o eiddo'r Cwmni i le bo hynny'n berthnasol.
- 3.1.3 Ni fydd y Cwmni'n gweithredu unrhyw fesurau a allai danseilio'r polisi hwn a'i amcanion.
- 3.1.4 Gwneir asesiad o effaith ieithyddol debygol neu wirioneddol unrhyw waith prosiect, polisi neu arfer gwaith y bydd y Cwmni yn eu darparu neu yn eu gweithredu. Bydd pob asesiad o'r fath yn ystyried eu heffaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar sicrhau na thrinnir y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:
- (a) pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael;
 - (b) sut y gellid cynllunio'r gweithgaredd (neu sut y gellid newid gweithgaredd sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif;
 - (c) sut y gellid cynllunio'r gweithgaredd (neu sut y gellid newid gweithgaredd sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol.
- 3.1.5 Mae'r templed asesu effaith o ran cydraddoldeb a ddatblygwyd gan y Cyngor ac a fabwysiadwyd gan y Cwmni yn cynnwys yr iaith Gymraeg fel un o'r elfennau y mae angen eu hystyried wrth gynnal asesiad o'r fath. Hefyd, mae'r canllawiau drafft sy'n mynd gyda'r templed yn cynnwys cyngor ar y math o faterion y dylid eu hystyried o ran yr iaith.
- 3.1.6 Pan fydd y Cwmni'n cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phrosiect neu benderfyniad polisi, bydd y ddogfen honno'n ystyried a cheisio barn ynghylch yr effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:
- (a) pa effeithiau (bônt yn bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael;
 - (b) sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan sylw fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif;
 - (c) sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan sylw fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol.

3.1.7 Pan fydd y Cwmni'n comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'w gynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, bydd yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried yr effeithiau ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:

- (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd dan sylw yn eu cael;
- (b) sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd dan sylw fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif;
- (c) sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi dan sylw fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol.

3.2 Defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y Cwmni

3.2.1 Bydd y Cwmni yn defnyddio ac yn cyfeirio at y polisi hwn wrth lunio a diwygio polisïau, cynlluniau a mesurau eraill ymhob gwasanaeth, fel bod agweddau Cymraeg gwasanaeth y Cwmni yn cael eu hintegreiddio i bob maes o fewn ei brosesau gweinyddol arferol. Yn ogystal, cynhelir ymarferion codi ymwybyddiaeth am egwyddorion y polisi ymhlith staff.

3.2.2 Bydd Bwrdd Cyfarwyddwr Menter Môn, ei Rheolwr Gyfarwyddwr, ei Thîm Rheolwyr Prosiectau, ei Huwch Swyddogion a holl swyddogion cyflogedig Menter Môn yn gefnogol i holl fesurau'r polisi hwn ac yn gyd-gyfrifol am ei weithrediad.

3.2.3 Yr Uwch dîm Rheoli fydd yn gyfrifol am gylchredeg gwybodaeth, cyfarwyddiadau ac arweiniad am y polisi i bob gwasanaeth, a bydd pob Rheolwr Prosiect a Cyfarwyddwyr wedyn yn gyfrifol am ei gylchredeg o fewn ei ph/prosiect / (g)wasanaeth. Mae hi'n bwysig fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o ofynion y polisi er mwyn iddo weithio'n effeithiol.

3.2.4 Nod y Cwmni yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith ei weinyddiaeth fewnol, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Cwmni yn monitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad arno i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi Iaith Gymraeg. Bydd un swyddog penodedig yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau priodol yn eu lle i gasglu ac adrodd ar y data gyfer yr adroddiad hwn.

3.2.5 Yn wyneb polisi uchod y Cwmni, bydd y Rheolwyr Prosiectau a Cyfarwyddwyr y cwmni yn gyfrifol am annog eu swyddogion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio ac ar gyfer cyfathrebu'n fewnol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

3.2.6 O gydnabod y gofyniad statudol i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac yn wyneb dymuniad y Cwmni i hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r

Gymraeg, bydd targedau'n cael eu gosod ac amserlen yn cael ei phennu ar gyfer gwella sgiliau (llafar ac ysgrifenedig) dwyieithrwydd staff.

- 3.2.7 Anogir staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'i gilydd ar lafar ac yn ysgrifenedig. Darperir y pecyn meddalwedd cyfrifiadurol 'CySill/CysGair' i staff er mwyn annog a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.
- 3.2.8 Serch hynny, bydd gan aelodau staff y Cwmni yr hawl i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg cyn belled ag y bo hynny'n gyson â darpariaethau'r polisi hwn ac nad yw'n amharu'n sylweddol ar effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol.
- 3.2.9 Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd o weithgorau swyddogion a chyrsgiau hyfforddi staff fel bo'r angen.
- 3.2.10 Bydd pob gohebiaeth ysgrifenedig mewnol â chylchrediad cyffredinol yn ddwyieithog, p'un ac ydyw ar bapur neu ar ffurf e-bost. Bydd staff yn cael eu hannog i anfon gohebiaeth at ddarllenwyr Cymraeg yn y Gymraeg.
- 3.2.11 Er mwyn sicrhau unffurfiaeth ac er mwyn osgoi dryswch, un wyddor fydd yn cael ei defnyddio wrth ddynodi paragraffau ac adrannau ayyb mewn testunau, a'r wyddor Gymraeg fydd honno.
- 3.2.12 Gydag unrhyw ohebu dwyieithog, bydd yr ohebiaeth naill ai gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar ffurf gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd.
- 3.2.13 Mae mewnwyd gyfrifiadurol y Cwmni wedi cael ei sefydlu i ledaenu gwybodaeth gorfforaethol i'w staff. Bydd y wybodaeth a ddarperir trwy'r cyfrwng hwn yn ddwyieithog. Hefyd, bydd unrhyw gylchlythyr mewnol i'r staff yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog.
- 3.2.14 Os bydd swyddog yn gohebu ag aelod o'r cyhoedd ar ôl siarad wyneb yn wyneb ag o/hi yn Gymraeg neu ar ôl siarad ag o/hi dros y ffôn yn Gymraeg, bydd yr ohebiaeth honno yn Gymraeg oni bai fod yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y Saesneg.
- 3.2.15 Pan fydd swyddog di-Gymraeg, neu swyddog ansicr ei Gymraeg, yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg bydd yn sicrhau cymorth cydweithiwr neu uned iaith y Cwmni er mwyn ymateb yn Gymraeg i'r ohebiaeth. Oni ddefnyddir gwasanaeth y cyfieithwyr, defnyddir cydweithiwr sydd â Chymraeg ysgrifenedig o safon uchel.
- 3.2.16 Bydd Rheolwyr Prosiectau a Cyfarwyddwyr y Cwmni yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff eu gwasanaethau yn ymwybodol o'r trefniadau hyn ac am hysbysu swyddogion di-Gymraeg o'r ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn gohebu yn Gymraeg h.y. oni allant lunio llythyr yn y Gymraeg eu hunain, dylent wneud trefniadau i'w gyfieithu i'r Gymraeg o fewn yr adran neu, os oes

angen, gofyn i swyddog priodol brawf-ddarllen y llythyr Cymraeg cyn ei anfon.

3.2.17 Bydd pecyn CysGair ar gael ar gyfer pob swyddog a bydd y Cwmni yn hyrwyddo'r defnydd o becynnau meddalwedd Cymraeg a dwyieithog yn gorfforaethol.

3.2.18 Darperir geiriad neu logo i'w gynnwys gyda llofnodion e-bost staff i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.

4. Cyflwyno Gwasanaethau Dwyieithog

4.1 Egwyddorion cyffredinol

4.1.1 Bydd y Cwmni yn darparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd yn Gymraeg ac /neu yn Saesneg ar draws ei holl wasanaethau, yn ôl pa iaith a ddefnyddir gan y defnyddiwr gwasanaeth. Bydd y gwasanaeth a ddarperir gan y Cwmni i'w ddefnyddwyr yn gyfartal yn y ddwy iaith o ran safon, prydlondeb ac effeithiolrwydd.

4.1.2 Y nod fydd darparu gwasanaeth o safon ymhob agwedd o waith y Cwmni - ymhob prosiect a phob gwasanaeth, yn fewnol ac yn allanol, ac yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn unol ag ymrwymiadau'r polisi hwn.

4.1.3 Bydd safon y gwasanaeth hwn yn destun arolygu cyson gan Brif Swyddog Menter Iaith Môn neu swyddog penodedig arall, dan oruchwyliaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr a Phencampwr Iaith y Bwrdd Cyfarwyddwyr, gyda'r nod o wella'r safon yn barhaus. Defnyddir amryw o ddulliau gwahanol i fonitro megis gwerthuso'r elfennau Gofal Cwsmer a chynhyrchu Adroddiad Blyneddol.

4.1.4 Bydd holl aelodau staff y Cwmni hefyd yn gyfrifol am gadw golwg ar y gwasanaeth dwyieithog a'r ohebiaeth a dderbynnir gan sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru y bydd y Cwmni yn ymwneud â nhw, gyda'r nod o annog, hwyluso a chefnogi'r sefydliadau hyn i ddarparu gwasanaeth dwyieithog cyflawn i'r cyhoedd.

4.2 Dyfarnu Contractau

4.2.1 Bydd unrhyw *wahoddiadau i dendro* am gontract a gyhoeddir gan y Cwmni neu Brosiect o'r Cwmni yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, ac ni fydd fersiwn Cymraeg o unrhyw wahoddiad yn cael ei drin yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.

4.2.2 Pan fydd y Cwmni neu un o'i Brosiectau yn cyhoeddi *gwahoddiadau i dendro* am gontract, bydd yn datgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

- 4.2.3 Bydd *manyleb pob tendr*, sef y ddogfen sy'n disgrifio ac yn manylu ar holl ofynion y contract, yn cael ei chyflwyno i'r tendrwr yn Saesneg neu Gymraeg.
- 4.2.4 Ni fydd y Cwmni na'i Brosiectau yn trin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad hysbysu tendrwr am benderfyniadau).
- 4.2.5 Os bydd y Cwmni neu un o'i Brosiectau yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweild â thendrwr fel rhan o'r asesiad o'r tendr, bydd y Cwmni neu'r Prosiect yn cynnig cynnal y cyfweiliad hwnnw yn Gymraeg ac, os yw'r tendrwr yn dymuno hynny, cynhelir y cyfweiliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).
- 4.2.6 Pan fydd y Cwmni neu un o'i Phrosiectau yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'r penderfyniad mewn perthynas â thendr, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.

4.3 Gwasanaethau ar ran y Cwmni neu un o'i Phrosiectau gan bartïon eraill

- 4.3.1 Bydd unrhyw gytundeb neu drefniant a wneir gyda thrydydd parti, ac sydd yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yn gyson â thelerau'r polisi hwn. Bydd hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau a gaiff eu contractio allan.
- 4.3.2 Ynglŷn ag unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan drydydd parti, bydd y Rheolwr Prosiect neu Gyfarwyddwr perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod manylion llawn am ofynion penodol y Polisi Iaith sy'n berthnasol i'r gwasanaeth a gontractir allan yn cael eu cyflwyno i ddarpar ddarparwr. Bydd y Rheolwr Prosiect neu Gyfarwyddwr hefyd yn gyfrifol am fonitro'r gydymffurfiaeth hon â'r polisi.
- 4.3.3 Bydd y Rheolwr Prosiect neu Gyfarwyddwr perthnasol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ddarpar ddarparwyr yn ymwybodol bod hi'n ofynnol iddynt fodloni'r Cwmni y gallant ddarparu gwasanaeth dwyieithog, yn unol ag agweddau perthnasol y polisi iaith, yn y gwasanaeth/maes dan sylw.
- 4.3.4 Yn wyneb goblygiadau Rheoli Perfformiad, a dibyniaeth y Cwmni ar asiantaethau, cwmnïau, ymgynghorwyr proffesiynol, cyrff gwirfoddol ac unigolion allanol i gyflawni rhai o'i dyletswyddau, mae hi'n bwysig bod y Cwmni, trwy gyfrwng ei threfniadau i osod cytundeb i gyrrff ac unigolion o'r fath, yn sicrhau eu bod yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o'r polisi hwn wrth ymdrin â'r cyhoedd yn ardal(oedd) gweithredu y Cwmni.
- 4.3.5 Mae'r polisi hwn yr un mor berthnasol i unrhyw asiantaeth neu gwmni allanol sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cwmni a'i Phrosiectau ag ydyw i'r Cwmni ei hun wrth ymdrin â'r cyhoedd.
- 4.3.6 Wrth osod unrhyw gytundeb, bydd y Rheolwr Prosiect perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod yr asiantaeth neu'r Cwmni sy'n ymgymryd â gwaith

cysylltiedig â darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ar ran y Cwmni neu Brosiect(au) o'r Cwmni, yn cydymffurfio â'r rhannau hynny o'r polisi hwn sy'n berthnasol i'r gwasanaeth dan sylw. Gwneir hynny trwy gynnwys manylion perthnasol am ofynion y polisi yn y dogfennau tendro a yrrir at yr asiantaeth neu'r Cwmni perthnasol.

4.3.7 Pan fydd disgwyl i drydydd parti ddarparu deunydd ysgrifenedig neu wneud cyflwyniadau i gyfarfodydd cyhoeddus y Cwmni neu brosiect(au) o'r Cwmni, bydd y Rheolwr Prosiect, Cyfarwyddwr neu Swyddog perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n ddwyieithog trwy gynnwys amodau penodol o fewn y cytundeb gyda'r trydydd parti dan sylw.

4.4 Dyfarnu Grantiau

4.4.1 Bydd y Cwmni a'i phrosiectau yn ystyried effeithiau'r materion a ganlyn ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant –

- (a) pa effeithiau, os o gwbl (bônt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael;
- (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif;
- (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol;
- (ch) a oes angen gofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn cynorthwyo'r Cwmni i asesu effaith dyfarnu grant.

4.4.2 Bydd unrhyw ddogfennau y bydd y Cwmni yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog, ac ni fydd y Cwmni yn trin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.

4.4.3 Pan fydd y Cwmni yn gwahodd ceisiadau am grant, bydd yn datgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

4.4.4 Ni fydd y Cwmni yn trin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau).

4.4.5 Os bydd y Cwmni yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'i hasesiad o'r cais, bydd y Cwmni yn cynnig cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, cynhelir y

cyfweiliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

- 4.4.6 Pan fydd y Cwmni yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'r penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.
- 4.4.7 Bydd y Cwmni yn annog sefydliadau, cyrff neu unigolion, nad ydynt yn cynrychioli cyrff cyhoeddus ond sy'n derbyn nawdd ariannol gan y Cwmni i ddarparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog neu'n Gymraeg.
- 4.4.8 Yn yr un modd, yn achos sefydliadau, cyrff neu unigolion, nad ydynt yn cynrychioli cyrff cyhoeddus, y bydd y Cwmni yn cydweithio â nhw, neu yn achos unrhyw bartneriaeth rhwng y Cwmni a sefydliadau, cyrff neu unigolion eraill, anogir prosiectau neu bartneriaethau o'r fath i ddarparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 4.4.9 Yn achos unrhyw nawdd sy'n cael ei gynnig i sefydliadau, cyrff neu unigolion, bydd y Rheolwr Prosiect neu gyfarwyddwr perthnasol yn gyfrifol am annog derbynnydd y nawdd i ddefnyddio cyfran o'r nawdd hwnnw er mwyn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ei weithgareddau. Bydd yn ofyniad ar dderbynwyr nawdd i adrodd yn ôl ar y camau a gymerwyd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r nawdd a dderbyniwyd. Cyflwynir gwybodaeth berthnasol yn yr adroddiadau monitro.

4.5 Cyflawni Swyddogaethau Statudol – Rheoleiddio

- 4.5.1 Bydd y Cwmni, wrth weithredu swyddogaeth reoleiddio, yn annog unrhyw sefydliad, corff neu unigolyn, nad yw'n cynrychioli corff cyhoeddus, i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei weithgareddau. Yn ôl yr angen, bydd y Cwmni yn darparu cyngor ar arfer da.
- 4.5.2 Bydd y Cwmni, wrth brynu gwasanaethau gan drydydd parti ar ran y cyhoedd, mewn amgylchiadau na chyfeiriwyd atynt yn barod, yn annog y trydydd parti i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 4.5.3 Bydd gofyn i'r Rheolwr Prosiect neu Cyfarwyddwr perthnasol annog y sawl sy'n cael ei reoleiddio ganddo/i i hyrwyddo'r Gymraeg yn ei weithgareddau e.e. cynhyrchu taflenni, arwyddion, cyhoeddiadau, hysbysebion dwyieithog. Bydd y Rheolwr Prosiect, Cyfarwyddwyr neu swyddog hefyd yn gyfrifol am fonitro sut mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo wedyn.

4.6 Partneriaeth (ffurfiol ac anffurfiol)

- 4.6.1 Pan fo'r Cwmni yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â gofynion y Polisi Iaith hwn.

- 4.6.2 Pan fo'r Cwmni yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbyn y Cwmni i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â gofynion y Polisi Iaith hwn a bydd y Cwmni yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.
- 4.6.3 Pan fo'r Cwmni yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortia bydd y Cwmni yn gweithredu'n unol â gofynion y Polisi Iaith hwn.
- 4.6.4 Pan fo'r Cwmni yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu polisiâu iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cwmni yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

4.7 Cyd-ddarparu Gwasanaethau

- 4.7.1 Mae trefniadau cyd-ddarparu a chyd-ariannu gwasanaethau yn allweddol i'r dyfodol ac yn faes y bydd gofyn i'r Cwmni ei ddatblygu fwyfwy. Wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, bydd y Cwmni yn gwarchod a sicrhau disgwyliadau trigolion ei hardaloedd gweithredu o safbwynt gwasanaethau dwyieithog.
- 4.7.2 Wrth ddrafftio ac adolygu cytundebau cyd-ddarparu a chyd-ariannu, bydd y Cwmni yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Polisi hwn a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r trefniadau'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd. Byddwn yn Monitro'r cytundebau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- 4.7.3 Bydd y Cwmni yn manteisio ar bob cyfle a geir i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg gyda'n cyd-ddarparwyr o fewn ei hardaloedd gweithredu ac i gydweithio tuag at well darpariaeth ddwyieithog ar draws wasanaethau.
- 4.7.4 Bydd y Cwmni yn pwysu am gyfleoedd i alluogi ei haelodau staff i barhau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg wrth gyd-ddarparu.

4.8 Cyrsiau a gynigir i'r cyhoedd

- 4.8.1 Os bydd y Cwmni yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, bydd yn ei gynnig yn Gymraeg. Bydd y Cwmni yn gwneud hyn ymhob amgylchiad, ac eithrio pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â rhan 4.8.2 isod yn dangos nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg.
- 4.8.2 Os bydd y Cwmni yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, bydd yn asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a sicheir bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar wefan Menter Môn.

5. Delio â'r cyhoedd

5.1 Delio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd

- 5.1.1 Bydd croeso i bobl siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ymdrin â staff y Cwmni. Ni fydd unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. Bydd trefniadau staffio'r Cwmni yn sicrhau bod ei staff rheng flaen, sy'n gwasanaethu'r cyhoedd o ddydd i ddydd, e.e. delio gydag ymholiadau, ateb galwadau ffôn, yn siarad Cymraeg. Mae pob adran o fewn y Cwmni fel arfer yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog.
- 5.1.2 Os bydd y sawl sy'n galw yn un o swyddfeydd y Cwmni yn siarad Cymraeg a'r swyddog sy'n ei (g)wasanaethu yn methu siarad Cymraeg, dylai'r swyddog esbonio na all siarad Cymraeg ac y bydd yn nôl swyddog dwyieithog i wasanaethu'r cwsmer. (Mewn sefyllfa lle mae'r swyddog sy'n gwasanaethu yn ddysgwyr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg).
- 5.1.3 Yn y modd hwn, nod y Cwmni yw hysbysu'r cyhoedd a ddaw i gysylltiad â hi am y polisi a'i amcanion, yn ogystal â'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y Cwmni yng nghyswllt gwasanaeth dwyieithog cyflawn.
- 5.1.4 Bydd y Cwmni yn sicrhau ac yn hyrwyddo amgylchedd dwyieithog gweledol yn ei swyddfeydd a'i safleoedd sy'n agored i'r cyhoedd. Arddangosir arwydd sy'n datgan (yn ddwyieithog) fod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa, a bydd staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.
- 5.1.5 Mewn llecynnau arddangos, bydd y deunydd a arddangosir yn ddwyieithog.

5.2 Gohebiaeth

- 5.2.1 Bydd croeso i unrhyw un ohebu yn ysgrifenedig â'r Cwmni yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl ei (d)dymuniad. Bydd yr ohebiaeth yn cael ei hateb gan y Cwmni yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol a bydd pob llythyr a anfonir gan y Cwmni, boed yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn cael ei lofnodi. Bydd llythyrau, ym mha iaith bynnag y bôn, yn cael eu hateb yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol (o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr gwreiddiol neu o fewn targedau eraill y cytunwyd arnynt).
- 5.2.2 Pan fo'r Cwmni yn cychwyn gohebiaeth, gwneir hynny yn newis iaith y derbynnydd os yw hynny'n wybyddus ac, os nad yw, bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog.
- 5.2.3 Pan fo swyddog yn cychwyn gohebiaeth gyda chorff cyhoeddus arall, anogir y swyddog i ohebu'n Gymraeg.
- 5.2.4 Gellir gohebu â chorff cyhoeddus y tu allan i Gymru fodd bynnag yn uniaith, sef yn iaith y wlad lle lleolir y corff dan sylw. Mae rhai cyrff cyhoeddus a'u

canolfannau yn Lloegr hefyd yn gwasanaethu Cymru. Mewn achosion o'r fath, anogir swyddogion y Cwmni i ohebu yn Gymraeg gyda chyrrff o'r fath.

- 5.2.5 Bydd unrhyw bapur newydd, cylchlythyrau neu lythyrau safonol a yrrir at y cyhoedd yn ddwyieithog.
- 5.2.6 Os bydd swyddog yn gohebu ag aelod o'r cyhoedd ar ôl siarad wyneb yn wyneb ag o/hi yn Gymraeg neu ar ôl siarad ag o/hi dros y ffôn yn Gymraeg, bydd yr ohebiaeth honno yn Gymraeg oni bai fod yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn y Saesneg.
- 5.2.7 Bydd y Cwmni yn datgan –
(a) mewn gohebiaeth, a
(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd pobl i anfon ymateb neu anfon gohebiaeth ati,
ei bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, ac y bydd yn ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
- 5.2.8 Darperir geiriad ar gyfer swyddogion y Cwmni fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.
- 5.2.9 Pan fydd y Cwmni yn defnyddio gwasanaeth post uniongyrchol, bydd y testunau a anfonir yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg, pa ddiwyg bynnag sy'n gweddu orau. Yn ogystal, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd.
- 5.2.10 Pan fydd swyddog di-Gymraeg, neu swyddog ansicr ei Gymraeg, yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg bydd yn sicrhau cymorth cydweithiwr neu swyddog perthnasol er mwyn ymateb yn Gymraeg i'r ohebiaeth. Oni ddefnyddir gwasanaeth cyfieithydd, gofynnir am gymorth cydweithiwr sydd â Chymraeg ysgrifenedig o safon uchel.
- 5.2.11 Bydd Rheolwyr Prosiectau a'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff eu gwasanaethau yn ymwybodol o'r trefniadau hyn ac am hysbysu swyddogion di-Gymraeg o'r ddarpariaeth sydd ar gael i'w galluogi i ohebu yn Gymraeg h.y. oni allant lunio llythyr yn y Gymraeg eu hunain, dylent wneud trefniadau i'w gyfieithu i'r Gymraeg o fewn eu swyddfa neu eu Tîm Prosiect neu, os oes angen, gofyn i swyddog perthnasol brawf-ddarllen y llythyr Gymraeg cyn ei anfon.

5.3 Ffonio

- 5.3.1 Bydd croeso i bobl siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ffonio y Cwmni.
- 5.3.2 Bydd galwadau a dderbynnir i unrhyw brif rif ffôn y Cwmni a'i brosiectau yn cael eu hateb yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Trwy gychwyn y cyfarchiad yn Gymraeg, bydd y Cwmni yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n galw bod

gwasanaeth Gymraeg ar gael. Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y galwr.

- 5.3.3 Os bydd y sawl sy'n galw yn siarad Cymraeg a'r swyddog sy'n ateb yn methu â chynnal y sgwrs yn Gymraeg ar ôl gwneud y cyfarchiad, dylai'r swyddog esbonio na all siarad Cymraeg ac esbonio y bydd yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg a all ymdrin â'r mater, neu, onid oes neb ar gael, hysbysu'r galwr y bydd siaradwr Cymraeg yn ei ffonio'n ôl cyn gynted ag sy'n bosibl. Mewn sefyllfa lle mae'r swyddog sy'n ateb galwad yn ddysgwyr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg.
- 5.3.4 Bydd negeseuon ar holl beiriannau ateb y Cwmni'n ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg yn gyntaf, ac yn rhoi gwybod i'r galwr fod modd gadael neges yn Gymraeg.
- 5.3.5 Bydd unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gan y Cwmni'n darparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn ddwyieithog.
- 5.3.6 Pan fydd y Cwmni'n hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu rifau cyswllt Prosiectau, ni fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5.3.7 Os bydd y Cwmni'n cynnig gwasanaeth Cymraeg ar ei phrif rif ffôn (neu ar un o'i phrif rifau ffôn), ar unrhyw rifau cyswllt Prosiectau, bydd rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.
- 5.3.8 Pan fydd y Cwmni yn cyhoeddi prif rif ffôn y Cwmni a'i brosiectau, bydd yn nodi (yn Gymraeg) ei fod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.
- 5.3.9 Os oes gan y Cwmni ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, bydd yn sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.
- 5.3.10 Pan fydd y Cwmni yn ffonio unigolyn am y tro cyntaf, bydd yn canfod beth yw dewis iaith yr unigolyn ar y cychwyn.

5.4 Cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

- 5.4.1 Os bydd y Cwmni yn gwahodd un person yn unig i gyfarfod (neu i gyfarfod i drafod mater sy'n ymwneud â busnes, cais, buddiannau neu lesiant y person), bydd y Cwmni yn:

- (a) gofyn i'r unigolyn a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a
- (b) os yw'r unigolyn yn hysbysu'r Cwmni ei (f)bod yn dymuno hynny,

cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

5.4.2 Os bydd y Cwmni yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant neu fuddiannau un neu ragor o'r unigolion a wahoddir):

- (a) bydd y Cwmni yn gofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; ac,
- (b) os yw o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi hysbysu'r Cwmni eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, bydd yn trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod;
- (c) os yw pawb a gafodd wahoddiad wedi hysbysu'r Cwmni eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

5.4.3 Os bydd y Cwmni yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, ac mae'r cyfarfod hwnnw yn ymwneud â busnes, cais, llesiant neu fuddiannau un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, bydd y Cwmni yn:

- (a) gofyn i'r unigolyn cyswllt neu i bob un o'r unigolion hynny a yw/a ydynt yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, ac
- (b) os yw'r unigolyn hwnnw, neu os yw pob un o'r unigolion hynny, yn hysbysu'r Cwmni ei fod/eu bod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

5.5 Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd (yn cynnwys cyflwyniadau ac ymgynghoriadau)

5.5.1 Anfonir gwahoddiadau i gyfarfodydd yn ddwyieithog a bydd croeso i staff y Cwmni a'r cyhoedd, mewn cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y Cwmni, siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dymuniad gan y bydd y Cwmni yn cynnal y cyfarfodydd yn ddwyieithog, gan drefnu bod offer cyfieithu a chyfieithydd ar gael. Wrth ateb cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd mewn cyfarfod o'r fath, bydd yr ymateb yn yr iaith y gofynnwyd y cwestiwn ynddi.

5.5.2 Hysbysir y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r fath bod offer cyfieithu ar gael ac y bydd croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith. Fodd bynnag y nod fydd gwneud cyfarfodydd dwyieithog yn norm fel na fydd angen cyhoeddiadau o'r fath.

5.5.3 Mewn cyfarfodydd cyhoeddus gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd swyddogion sy'n cynrychioli'r Cwmni yn swyddogion dwyieithog. Oni ellir trefnu hyn, defnyddir offer cyfieithu symudol i sicrhau y gall y rhai sy'n bresennol siarad yn eu dewis iaith. Gwneir pob ymdrech i sicrhau fod delwedd a gweinyddiaeth y cyfarfodydd yn ddwyieithog.

5.5.4 Mewn cyfarfodydd o'r fath, bydd y sawl sy'n gyfrifol am drefnu'r cyfarfod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod neges yn cael ei chyfleu ar bob rhaglen,

gwahoddiad, neu hysbyseb am y cyfarfod, i ddynodi y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gyfer y di-Gymraeg yn y cyfarfod. Bydd yn gyfrifoldeb ar Gadeirydd y cyfarfod i roi arweiniad ar y defnydd iaith ar gychwyn y cyfarfod. Bydd hyn yn dwyn pwysau oddi ar y swyddogion mewn cyfarfodydd o'r fath i gyfeirio at y gwasanaeth cyfieithu ac yn gwneud y drefn o gynnal cyfarfodydd dwyieithog yn un naturiol.

5.5.5 Os bydd y Cwmni yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod a drefnwyd sy'n agored i'r cyhoedd, bydd yn sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn ddwyieithog, ac ni fydd unrhyw destun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

5.6 Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan y Cwmni

5.6.1 Os bydd y Cwmni yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o gost cynnal digwyddiad cyhoeddus, bydd yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg:

- wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad);
- yn y digwyddiad ei hun (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynnigir i'r rhai sy'n bresennol yn y digwyddiad - er enghraifft, arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, a chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).

5.7 Cyfarfodydd eraill

5.7.1 Bydd y Cwmni yn ceisio sicrhau bob amser y bydd staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd, boed hynny yn y swyddfa, ar safleoedd allanol ayyb, yn ddwyieithog.

5.7.2 Oni fydd hyn yn bosibl yn y swyddfa neu ar safle, dylai'r swyddog di-Gymraeg esbonio i'r aelod o'r cyhoedd dan sylw na all siarad Cymraeg a gofyn a yw'n dymuno siarad hefo siaradwr Cymraeg. Os bydd yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg dylid nôl swyddog dwyieithog i ddelio â'r mater. (Mewn sefyllfa lle mae'r swyddog yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg).

5.7.3 Ar gyfer cyfarfodydd y tu allan i adeiladau'r Cwmni e.e. cyfarfodydd ar safleoedd Prosiect neu yn y maes, gwneir trefniadau i sicrhau mai swyddog dwyieithog fydd yn mynd i'r cyfarfod. Os bydd y Cwmni yn ymwybodol ymlaen llaw o ddewis iaith y sawl fydd yn bresennol, bydd gallu ieithyddol y swyddog yn adlewyrchu hynny.

5.8 Gwefannau, gwasanaethau ar-lein a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol

5.8.1 Bydd unrhyw gysylltiadau â'r cyhoedd trwy gyfrwng cyfrifiadurol e.e. gwefan y Cwmni, gwasanaethau ar-lein, e-bost, sgriniau cyffwrdd, systemau sain cyhoeddus, offer fideo gynadledda, rhwydweithiau cymdeithasol (megis

Facebook, Twitter ayyb) yn cydymffurfio â'r gofynion yr adran ar 'Ohebiaeth' uchod.

- 5.8.2 Bydd unrhyw ddeunydd neu wybodaeth a roddir ar wefan y Cwmni yn gwbl ddwyieithog, gyda dewis iaith ar y dudalen agoriadol, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar wefan y Cwmni.
- 5.8.3 Lle mae tudalen Gymraeg sy'n cyfateb i dudalen Saesneg ar wefan y Cwmni, nodir yn glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darperir dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.
- 5.8.4 Bydd pob ap y mae'r Cwmni yn ei gyhoeddi yn gweithredu'n llawn yn ddwyieithog, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.

6. Wyneb cyhoeddus y Cwmni

6.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

- 6.1.1 Bydd enw corfforaethol y Cwmni yn Gymraeg, ac ar wahân i hynny bydd wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cwmni yn gwbl ddwyieithog ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 6.1.2 Bydd enwau rhai prosiectau yn uniaith Gymraeg (e.e. Morlais) a rhai'n ddwyieithog (e.e. Hwb Menter/Enterprise Hub) ond bydd eu gwasanaethau a'u holl gyfeiriadau perthnasol, eu papur pennawd, cyhoeddiadau a'u holl ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus boed hwnnw ar ffurf adroddiad, arwydd, ffurflen, hysbysiad, rhybudd neu ysgrifen ar adeilad, cerbyd neu beiriant o eiddo'r Cwmni yn ddwyieithog. Bydd logos a sloganau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 6.1.3 Yn achos arwyddeiriau megis "Môn Mam Cymru", ni fyddant yn cael eu cyfieithu.

6.2 Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y Cwmni

- 6.2.1 Bydd y Cwmni yn hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn ddwyieithog.
- 6.2.2 Bydd unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen y mae'r Cwmni yn ei llunio, neu wefan ganddi sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg yn nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

6.3 Arwyddion

- 6.3.1 Bydd holl arwyddion mewnol ac allanol y Cwmni (gan gynnwys arwyddion/marciau ffyrdd) yn gwbl ddwyieithog.

- 6.3.2 Bydd y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.
- 6.3.3 Pan fydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd ar arwyddion byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, a bydd y Gymraeg naill ai uwchben y Saesneg, neu ar y chwith os yw'r ddwy iaith ochr yn ochr â'i gilydd. Os bydd yn rhaid eu darparu ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd a bydd yr arwydd Cymraeg un ai uwchben yr un Saesneg neu ar y chwith os bydd y ddwy iaith ochr yn ochr â'i gilydd.
- 6.3.4 Pan fydd y Cwmni yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn ei weithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), bydd unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac ni fydd y testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.
- 6.3.5 Pan fydd y Cwmni yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn ei weithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhoddir y testun Cymraeg mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
- 6.3.7 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn ei weithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

6.4 Enwau lleoedd

- 6.4.1 Bydd y Cwmni yn arddel y fersiwn Cymraeg yn unig o enwau lleoedd, afonydd, mynyddoedd ayyb ac eithrio'r enwau hynny y mae Menter Môn wedi cydnabod fersiwn Saesneg swyddogol ohonynt.
- 6.4.2 Lle cydnabyddir fersiwn Saesneg swyddogol dylid ei defnyddio mewn cyd-destun Saesneg yn unig.

6.5 Systemau annerch cyhoeddus a negeseuon sain

- 6.5.1 Pan fydd y Cwmni yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, gwneir y cyhoeddiad hwnnw yn ddwyieithog gyda chyhoeddiad yn Gymraeg yn gyntaf.
- 6.5.2 Pan fydd y Cwmni yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn ei gweithle, bydd y cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg.

6.6 Cyhoeddi, argraffu ac arddangos deunydd cyhoeddus

- 6.6.1 Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddus neu ddeunydd hysbysebu a gyhoeddir gan y Cwmni, yn gwbl ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau, ffurflenni, polisiâu cyhoeddus perthnasol ayyb. Bydd hyn hefyd yn cynnwys deunydd cyrff a chwmnïau eraill a fydd o dro i dro yn cael ei arddangos yn adeiladau'r Cwmni.

- 6.6.2 Symud tuag at gadw holl gofnodion cyfarfodydd mewnol y Cwmni yn Gymraeg, ac eithrio'r cofnodion hynny y bydd rhaid eu rhannu gyda chyrrff eraill nad ydynt yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mesurir cynnydd yn y cyswllt yma a chyflwynir gwybodaeth berthnasol arno yn yr adroddiadau monitro.
- 6.6.3 Bydd deunydd printiedig yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen (fel y bo'n briodol), ac yn gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.
- 6.6.4 Lle nad yw'n bosibl neu'n ymarferol cyhoeddi deunydd printiedig yn y ddwy iaith ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen, cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, a bydd hi'r un mor hawdd i gael copi o'r testun yn y naill iaith neu'r llall. Bydd y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â datganiad yn y fersiwn Cymraeg i'r gwrthwyneb.
- 6.6.5 Bydd testunau arddangos mewn arddangosfeydd, cynadleddau a seminarau yn ddwyieithog bob amser gyda'r Gymraeg ar y chwith neu uwchben y Saesneg, pa ddiwyg bynnag sydd fwyaf addas. Yn ogystal, bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd.

6.7 Tafleni, llyfrynnau, ffurflenni a deunydd esboniadol

- 6.7.1 Bydd unrhyw daflenni, llyfrynnau, ffurflenni a deunydd esboniadol a lunnir at ddefnydd y cyhoedd yn gwbl ddwyieithog.
- 6.7.2 Bydd deunydd printiedig o'r fath yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen (fel y bo'n briodol), yn gyfochrog, gyda'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.
- 6.7.3 Pan fydd y Cwmni yn llunio dogfen neu ffurflen yn y Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a bydd hi'r un mor hawdd i gael copi o'r testun yn y naill iaith neu'r llall.
- 6.7.4 Lle nad ydyw'n bosibl neu'n ymarferol cyhoeddi tafleni, llyfrynnau, ffurflenni a deunydd esboniadol yn y ddwy iaith ar yr un ddalen neu yn yr un ddogfen, bydd y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â datganiad yn y fersiwn Cymraeg i'r gwrthwyneb.
- 6.7.5 Os bydd y Cwmni yn llunio ffurflen yn y Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), ni fydd yn gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).

6.7.6 Os bydd y Cwmni yn mewnosod gwybodaeth ychwanegol ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), sicrheir bod yr wybodaeth y mewnosodir yn cael ei mewnosod yn Gymraeg yn unol ag iaith y ffurflen.

6.8 Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau

6.8.1 Bydd pob datganiad gan y Cwmni i'r wasg neu i'r cyfryngau yn gwbl ddwyieithog.

6.8.2 Bydd pob cyfathrebiaeth â'r wasg neu'r cyfryngau yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan ddibynnu ar iaith y gohebydd perthnasol. Oni fydd swyddog yn gwybod am allu ieithyddol gohebwy'r dylai gysylltu trwy ohebiaeth ddwyieithog.

6.9 Hysbysebu a Chyhoedduswydd

6.9.1 Bydd ymgyrchoedd hysbysebu a chyhoedduswydd y Cwmni yn rhai cwbl ddwyieithog ym mha bynnag ffurf y bo e.e. datganiadau, taflenni, poster, rhybuddion ayyb.

6.9.2 Bydd y fersiwn Gymraeg uwchben y fersiwn Saesneg, neu lle bo'r testun yn gyfochrog, bydd y fersiwn Gymraeg ar y chwith, a byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

6.10 Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysiadau Swyddogol

6.10.1 Bydd hysbysiadau cyhoeddus swyddogol y Cwmni yn rhai cwbl ddwyieithog ar ffurf gyfochrog gyda'r testun Cymraeg ar y chwith. Lle na fydd hyn yn ymarferol, bydd un testun uwchben y llall gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg. Ymhob achos fodd bynnag, bydd y testunau yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

6.11 Deunydd gweledol a chlywedol electronig

6.11.1 Bydd deunydd gweledol a chlywedol electronig sy'n gysylltiedig â gwasanaethu'r cyhoedd un ai yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf, neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân (pa un bynnag sydd yn briodol). Bydd y naill iaith neu'r llall ar gael bob amser beth bynnag fo iaith y gynulleidfa. Pan fo'r gynulleidfa yn ddwyieithog, dylid defnyddio'r ddwy iaith gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.

6.12 Gwaith marchnata

- 6.12.1 Bydd unrhyw ymgyrchoedd marchnata a gynhelir gan, neu ar ran y Cwmni yn rhai cwbl ddwyieithog (ac eithrio rhai ymgyrchoedd a gynhelir y tu allan i Gymru i ddenu mewnfuddsoddiad neu diddordeb).
- 6.12.2 Golyga hyn y bydd unrhyw waith hysbysebu, cyhoeddi, ymchwil yn gwbl ddwyieithog, ac yn achos arolygon ymchwil, bydd y Cwmni yn sicrhau y bydd staff a fydd yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd, bônt yn uniongyrchol gyflogedig gan y Cwmni, neu gan gwmni/corff allanol trwy gytundeb, yn ddwyieithog, ac yn cynnwys gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd e.e. wrth gwblhau holiaduron. Yn ogystal, cynigir y dewis o gynnal unrhyw gyfweiliad yn Gymraeg neu Saesneg. Gall rhai arolygon hefyd fod yn ceisio barn siaradwyr Cymraeg yn benodol, er mwyn cael darlun o safon ac amrediad y gwasanaeth Cymraeg.

6.13 Hysbysebion Swyddi

6.13.1 Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi yn gwbl ddwyieithog, ynghyd â'r deunydd atodol a nodir isod. Bydd hysbysebion yn cynnwys datganiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Ni fydd fersiynau Cymraeg o'r dogfennau a nodir isod yn cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw fersiynau Saesneg. (Mae hyn yn cynnwys hysbysebion yn y wasg Saesneg yng Nghymru ac mewn cylchgronau neu bapurau newydd yn Lloegr):

- (a) ffurflenni cais am swyddi;
- (b) deunydd esboniadol ynghylch y broses ar gyfer ymgeisio am swyddi;
- (c) gwybodaeth am y broses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;
- (ch) swydd-ddisgrifiadau.

6.13.2 Mewn hysbysebion printiedig o'r fath bydd y ddwy iaith yn gyfochrog gyda'r Gymraeg ar y chwith. Lle na fydd hyn yn ymarferol, bydd un testun uwchben y llall gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg. Ymhob achos fodd bynnag, bydd y testunau yn gyfartal o ran ffurf, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd, boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrdau neu fel arall.

6.13.3 Bydd hysbysebion mewn papurau/cylchgronau Cymraeg eu hiaith yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn unig.

7. Gweithredu'r Polisi

7.1 Staffio

7.1.1 Pan fydd y Cwmni yn cynnig swydd newydd i unigolyn, bydd yn gofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu contract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny bydd yn darparu'r contract yn Gymraeg.

7.1.2 Bydd y Cwmni yn –

- (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a
- (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, yn darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddi/iddo yn Gymraeg.

7.1.3 Bydd y Cwmni yn gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny bydd yn darparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddi / iddo yn Gymraeg.

7.1.4 Bydd y Cwmni yn gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny bydd yn darparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddi / iddo yn Gymraeg.

7.1.5 Bydd y Cwmni yn gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny bydd yn darparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddi / iddo yn Gymraeg.

7.1.6 Bydd y Cwmni yn gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau, absenoldebau o'r gwaith, ac oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny bydd yn darparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddi / iddo yn Gymraeg.

7.1.7 Os bydd y Cwmni yn cyhoeddi unrhyw bolisiâu, gan gynnwys polisiâu ar y materion isod, fe'u cyhoeddir yn ddwyieithog:

- Ymddygiad yn y gweithle
- Iechyd a lles yn y gweithle
- Cyflogau neu fuddion yn y gweithle
- Rheoli perfformiad
- Absenoldeb o'r gwaith
- Amodau gwaith
- Patrymau gwaith

7.2 Cwynion a wneir gan aelod o staff y Cwmni

7.2.1 Bydd y Cwmni yn caniatáu i bob aelod o'i staff wneud cwyn(ion) yn Gymraeg, ac ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef / amdani hi.

7.2.2 Bydd y Cwmni yn datgan mewn unrhyw ddogfen sydd ganddo sy'n nodi ei gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff wneud cwyn iddo yn Gymraeg, ac ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef neu hi; a bydd yn rhoi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.

7.2.3 Os bydd y Cwmni yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, bydd yn cynnig

cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

7.2.4 Pan fydd y Cwmni yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'r penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef neu hi, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff –

- (a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,
- (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef neu hi,
- (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu
- (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.

7.3 Disgyblu staff

7.3.1 Bydd y Cwmni yn caniatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.

7.3.2 Bydd y Cwmni yn datgan mewn unrhyw ddogfen sydd ganddo sy'n nodi trefniadau'r Cwmni ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn ac, os bydd yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.

7.3.3 Os bydd y Cwmni yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, bydd yn cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

7.3.4 Pan fydd y Cwmni yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'r penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, bydd yn gwneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg, wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.

7.4 Technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan y Cwmni, a'r fewnrwyd

7.4.1 Bydd y Cwmni yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'n staff, ac yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).

7.4.2 Bydd y Cwmni yn sicrhau –

- (a) bod testun pob tudalen ar ei mewnwyd ar gael yn Gymraeg

- (b) bod pob tudalen Gymraeg ar ei mewnwyd yn gweithredu'n llawn, ac
 - (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei mewnwyd.
- 7.4.3 Lle mae gan y Cwmni dudalen Gymraeg ar ein mewnwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, bydd yn nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a bydd yn darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.
- 7.4.4 Bydd y Cwmni yn neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar ei mewnwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo ei staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 7.4.5 Bydd y Cwmni yn darparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar ei thudalennau mewnwyd yn ddwyieithog.

7.5 Meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi gweithlu

- 7.5.1 Er mwyn gallu sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, bydd y Cwmni yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol er mwyn sicrhau y bydd y gweithleoedd hynny o fewn y Cwmni sydd â chysylltiad â'r cyhoedd, yn cynnwys nifer digonol o swyddogion dwyieithog (gan gynnwys dysgwyr sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg hyd at lefel sy'n dderbyniol i ofynion y swydd), fel bod gwasanaeth ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg . Bydd hyn yn fodd i sicrhau bod y swyddogion hynny y mae'n rhesymol disgwyl iddynt ddelio â'r cyhoedd yn medru gwneud hynny yn newis iaith y cyhoedd.
- 7.5.2 Bydd y broses Adolygu Perfformiad yn darparu asesiad blynyddol o allu pob aelod o'r staff yn y Gymraeg, ac yn dynodi unrhyw anghenion datblygu.
- 7.5.3 Bydd rhai swyddi na fydd eu deiliaid yn dod i gysylltiad â'r cyhoedd. Serch hynny, oherwydd natur rhai o'r swyddi hyn, bydd gofyn i'r deiliaid fod â sgiliau dwyieithog fydd yn amrywio o swydd i swydd. Am rai swyddi eraill, na ddônt i gysylltiad â'r cyhoedd a na fydd y gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol ar eu cyfer, bydd y swyddogion hynny yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg er mwyn hwyluso'r cydweithio â staff o fewn eu prosiectau / gwasanaethau, a rhwng gwasanaethau yn gyffredinol.
- 7.5.4 Bydd y Cwmni yn dynodi pa sgiliau ieithyddol llafar ac ysgrifenedig y mae eu hangen ar gyfer pob swydd. Bydd y gofynion hyn yn unigryw ar gyfer pob swydd ac yn nodi'r lefelau hyfedredd y mae eu angen ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer pob swydd a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys wrth hysbysebu unrhyw swydd yn y dyfodol, ac yn cael ei chofnodi'n ganolog fel sail i benodiadau.
- 7.5.5 Bydd angen i bob Rheolwr Prosiect a Cyfarwyddwyr ystyried yn ofalus natur a dyletswyddau'r swyddi unigol sydd o fewn cwmpas eu cyfrifoldebau a phennu pa sgiliau ieithyddol y mae eu hangen ar gyfer pob swydd ac ynghyd-destun cydbwysedd ieithyddol y tîm. Dylid cyflwyno'r wybodaeth honno i'w hystyried gan ac i'w chymeradwyo gan y Rheolwr Gyfarwyddwr.

- 7.5.6 Cydnabyddir fod cynllunio gweithlu dwyieithog yn bwysig ynghyd â chael cyfundrefn o fonitro faint o siaradwyr Cymraeg sydd o fewn y sefydliad. Bydd y Cwmni yn asesu lefelau sgiliau Cymraeg ei holl gyflogeion.
- 7.5.7 Bydd y Cwmni yn darparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os darperir hyfforddiant o'r fath yn Saesneg –
- (a) recriwtio a chyfweld;
 - (b) rheoli perfformiad;
 - (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
 - (ch) ymsefydlu;
 - (d) delio â'r cyhoedd; ac
 - (dd) iechyd a diogelwch.
- 7.5.8 Bydd y Cwmni yn darparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd; cyfweiliadau; a gweithdrefnau cwyno a disgyblu.
- 7.5.9 Darperir cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol yn ôl yr angen, ac i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl rheolwyr.
- 7.5.10 Darperir cyfleoedd i gyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.
- 7.5.11 Darperir cyrsiau hyfforddi er mwyn i gyflogeion ddatblygu –
- (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
 - (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;
 - (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 7.5.12 Nod y Cwmni yw darparu cyrsiau addas ar bob lefel i gryfhau sgiliau ieithyddol y staff er mwyn gwireddu'r polisi hwn. Mae'r Strategaeth Hyfforddiant Iaith yn rhan allweddol o gyfundrefn datblygiad personol y Cwmni.
- 7.5.13 Rhoddir anogaeth gref i bob swyddog o fewn y Cwmni ddysgu neu wella'i Gymraeg. Bydd y math o gwrs a gynigir yn fater i'w drafod gyda'r swyddog dan sylw. Gall amrywio o gyrsiau ar gyfer dechreuwyr pur i gyrsiau gloywi ysgrifenedig i'r rheiny sy'n rhugl yn y Gymraeg ar lafar/ysgrifenedig.
- 7.5.14 Rhoddir blaenoriaeth i'r swyddogion hynny y mae'n ofynnol iddynt fod â hyfedredd yn y Gymraeg er mwyn cydymffurfio â'u disgrifiad swydd neu amod cyflogi, a hefyd i ddechreuwyr sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd.
- 7.5.15 Darperir cyrsiau addas ar gyfer staff ynghyd â chefnogaeth yn y gweithle.

7.5.16 Darperir hyfforddiant Cymraeg i ddysgwyr/a rhai y mae angen cyrsiau gloywi arnynt, yn unol â Strategaeth Hyfforddiant Cymraeg y Cwmni. Bydd y Strategaeth yn fodd i :

- asesu anghenion dysgwyr a'r rheini y mae angen cyrsiau gloywi arnynt, ac yn gosod targedau iddynt;
- monitro cyrhaeddiad dysgwyr a'r rheini a'r rheini y mae angen cyrsiau gloywi arnynt;
- galluogi staff i weithio yn eu dewis iaith ar lafar neu yn ysgrifenedig;
- cynyddu sgiliau llafar ac ysgrifenedig staff dwyieithog;
- codi hyder staff yn eu sgiliau Cymraeg.

7.5.17 Y Cyfarwyddwr Corfforaethol fydd yn gyfrifol am arolygu'r darpariaethau dysgu Cymraeg.

7.5.18 Darperir hyfforddiant arbenigol hefyd mewn meysydd penodol sydd yn berthnasol i waith y Cwmni.

7.5.19 Sicrheir fod swyddogion sy'n dysgu Cymraeg yn mynychu nifer penodol o oriau hyfforddiant iaith mewn blwyddyn.

7.5.20 Pan fydd y Cwmni yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), darperir gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

7.5.21 Darperir geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.

7.6 Recriwtio a Phenodi

7.6.1 Bydd y Cwmni'n paratoi a mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Iaith i roi arweiniad ar recriwtio, penodi a hyfforddi staff. Bydd y Strategaeth yn seiliedig ar ganllawiau a argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn unol â'r Strategaeth, pan fydd y Cwmni yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, bydd yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, gan osod pob swydd mewn un neu ragor o'r categorïau canlynol:

- (a) sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol ar adeg y penodiad;
- (b) sgiliau Cymraeg i'w dysgu wedi'r penodiad, fel amod penodi
- (c) sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

7.6.2 Os bydd y Cwmni wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, bydd yn pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd.

- 7.6.3 Oni ellir penodi person dwyieithog i swydd y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar ei chyfer, wedi hysbysebu am sgiliau o'r fath, bydd y swydd honno yn cael ei hail hysbysebu gyda'r un amod(au) ieithyddol.
- 7.6.4 Fodd bynnag, wrth ail hysbysebu rhai swyddi penodol o'r fath, gellir nodi yn yr hysbyseb y bydd croeso i ymgeiswyr heb sgiliau Cymraeg ymgeisio am y swyddi hyn ar yr amod y byddant yn dysgu'r Gymraeg hyd y lefel sy'n ofynnol. Gyda rhai swyddi eraill, bydd yn angenrheidiol cael swyddog dwyieithog o'r cychwyn cyntaf er mwyn diwallu gofynion y gwasanaeth. Os penodir ymgeisydd di-Gymraeg i'r swydd gofynnir iddo/iddi dderbyn, fel amod penodi, dargedau datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn codi o'r fanyleb person i'r swydd a chytuno ar gyfnod amser penodol i gyrraedd y lefel rhuglder derbyniol yng nghyswllt bodloni gofynion y swydd. Bydd y Cwmni yn rhoi pob cymorth o ran ariannu cyrsiau a neilltuo amser o'r gwaith, i alluogi swyddogion di-Gymraeg i ddysgu'r iaith. Bydd y Cwmni hefyd yn monitro cynnydd yn rheolaidd er mwyn asesu pa mor briodol yw'r cwrs i'r unigolyn.
- 7.6.5 Ar gyfer rhai swyddi penodol, bydd cymal yn cael ei gynnwys mewn ail hysbysebion o'r fath i ddynodi eu bod yn ail-hysbysebion ac yn dynodi fod croeso i bersonau heb sgiliau Cymraeg ymgeisio am y swydd. Yn ogystal, yn y pecyn gwybodaeth am y swydd a ddarperir i ymgeiswyr, rhoddir gwybodaeth am yr amod i ennill sgiliau ieithyddol fel y nodir uchod.
- 7.6.6 Ni fydd y Cwmni yn trin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydym yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).
- 7.6.7 Bydd ffurflenni cais y Cwmni am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi a ydynt yn dymuno cael cyfweiliad neu'r dull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, cynhelir unrhyw gyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).
- 7.6.8 Pan fydd y Cwmni yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'n penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, gwneir hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.
- 7.6.9 Bydd Gweithgor Iaith y Cwmni a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar benodiadau staff fel rhan o weithrediad Strategaeth Sgiliau Iaith y Cwmni.

7.7 Hyfforddiant

- 7.7.1 Wrth drefnu hyfforddiant, bydd gofyn hysbysu swyddogion am gyrsiau priodol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Cwmni yn darparu hyfforddiant lle bynnag y bo hynny'n briodol i hwyluso gweithredu'r polisi hwn. Bydd yn cyflawni hynny trwy asesu beth yw anghenion hyfforddiant staff y Cwmni.

7.7.2 Bydd anogaeth i swyddogion ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg pan fo hynny'n berthnasol.

7.7.3 Yn achos cyrsiau a ddarperir yng Nghymru trwy gyfrwng y Saesneg, bydd y Menter laith yn gyfrifol am annog y cyrff arholi/asesu perthnasol i gynnig cyfle ieithyddol cyfartal i fyfyrwyr, fel y gallant sefyll arholiadau/gyflwyno gwaith i'w asesu, yn Gymraeg.

7.8 Y Gwasanaeth Cyfieithu

7.8.1 Bydd y Cwmni yn penodi cyfieithwyr cymwys drwy ei broses caffael er mwyn cyfieithu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a fydd yn cael ei gyhoeddi, yn ogystal â darpariaeth gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a/neu digwyddiadau byw.

7.8.2 Pan fo sefydliad preifat, corff preifat, neu unigolyn yn cyflwyno unrhyw ddogfennau, adroddiadau neu lythyrau i'r Cwmni yn Saesneg yn unig, a'r angen yn codi i gyflwyno'r testun i Bwyllgor neu Banel, yna anogir y sefydliad preifat, corff preifat neu unigolyn i gyflwyno'r wybodaeth yn ddwyieithog.

7.8.3 Anogir cyrff cyhoeddus i gyflwyno pob gohebiaeth ac adroddiad yn ddwyieithog neu'n Gymraeg. Anogir cyrff yn y sectorau gwirfoddol a phreifat i gyflwyno gohebiaeth yn ddwyieithog, gan arddel yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

7.8.3 Bydd gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dymuniad yng nghyfarfodydd Menter Môn a darperir offer cyfieithu ar y pryd i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn holl gyfarfodydd Menter Môn pan fo'i angen.

7.8.4 Dan amgylchiadau lle bydd yr offer yn torri yn ystod cyfarfod, bydd y cyfieithydd/ cyfieithwyr yn cyfieithu'n bersonol i'r sawl sydd angen cyfieithiad. Onid yw hyn yn ymarferol, gofynnir i'r rheiny sydd yn bresennol yn y cyfarfod ac sy'n ddibynnol ar wasanaeth cyfieithu, symud at berson addas a fydd yn crynhoi'r drafodaeth ar adegau cyfleus, a hynny dan reolaeth y Cadeirydd. Yn ogystal, ar ddiwedd pob trafodaeth bydd y Cadeirydd yn trefnu i grynhoi'r drafodaeth a'r penderfyniad yn Saesneg.

7.8.5 Os nad oes offer cyfieithu parhaol mewn ystafell a ddefnyddir i gynnal cyfarfodydd y Cwmni a'i Phrosiectau yna, darperir offer symudol ynddi yn ôl y galw.

7.8.6 Pan fo cyfarfod yn cael ei gynnal mewn adeilad sy'n eiddo i gorff arall, a'r Cwmni yn rhan o'r gwaith trefnu, yna defnyddir yr offer symudol yn ôl y galw.

7.9 Pryderon a Chwynion

7.9.1 Mae'r Cwmni wedi mabwysiadu'r un Polisi Pryderon a Chwynion ag sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn, sef polisi a sefydlwyd yn 2013, ac sy'n golygu yr ymatebir i gwynion mewn modd sy'n ceisio dysgu o bryderon a fynegir gan gwsmeriaid. Mae'r polisi yn seiliedig ar y Polisi Enghreifftiol a ddatblygwyd gydag Ombwdsman Cyhoeddus Cymru fel system gyffredin i ddarparwyr

gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ddelio â chwynion. Cynhwysir cwynion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn y drefn hon (a rhaid i bob cofnod o gŵyn nodi a yw'r gŵyn yn ymwneud yn benodol â'r maes iaith).

8. Hybu'r Gymraeg

- 8.1 Bydd y Cwmni yn llunio, a chyhoeddi ar ei gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut y mae'n bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ei hardal weithredu; a bydd y strategaeth yn cynnwys (ymysg pethau eraill) –
- (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr Cymraeg yn ei hardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn ei hardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a
 - (b) datganiad sy'n esbonio sut y mae'n bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; ac fe adolygir y strategaeth a chyhoeddi fersiwn diwygiedig ohoni ar ei wefan cyn pen 5 mlynedd wedi dyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu dyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).
- 8.2 Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol ag 8.1 uchod bydd y Cwmni yn -
- (a) asesu i ba raddau y mae wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddo, a
 - (b) cyhoeddi'r asesiad ar ei gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn –
 - (i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
 - (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gan y Cwmni neu a ariannwyd ganddi yn ystod y 5 mlynedd blaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

9. Cadw Cofnodion

- 9.1 Bydd y Cwmni yn cadw cofnod, fesul pob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion y mae'n eu cael sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Polisi hwn.
- 9.2 Bydd y Cwmni yn cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig y mae'n ei chael sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r safonau y mae wedi ymrwymo i gydymffurfio â hwy.
- 9.3 Bydd yn Cwmni yn cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig y mae'n ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau mae wedi ymrwymo i gydymffurfio â hwy ai peidio).

- 9.4 Bydd y Cwmni yn cadw cofnod o'r camau y mae wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi y mae'r Cwmni wedi ymrwymo i gydymffurfio â hwy.
- 9.5 Bydd y Cwmni yn cadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg ei chyflogeion a wnaed ganddo yn unol ag adran 7.6 uchod), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus iddi, bydd yn cadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.
- 9.6 Bydd y Cwmni yn cadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o –
- (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynhigiwyd ganddo yn Gymraeg (yn unol ag adran 7.7 uchod), a
 - (b) os cynigiwyd fersiwn Cymraeg o gwrs ganddo yn unol ag adran 7.7.uchod, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn hwnnw o'r cwrs.
- 9.7 Bydd y Cwmni yn cadw cofnod o bob asesiad a gynhelir ganddo (yn unol ag adran 7.6 uchod) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.
- 9.8 Bydd y Cwmni yn cadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol ag adran 7.6 uchod) fel swyddi sy'n gofyn -
- (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
 - (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg cyn gynted ag y bydd rhywun wedi'i phenodi/benodi i'r swydd;
 - (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
 - (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

10. Materion Atodol

10.1 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Polisi Iaith hwn

10.1.1 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod y ddogfen bolisi hon ar gael –

- (a) ar system fewnol Menter Môn sy'n agored i holl staff y cwmni
- (b) ar ein gwefan
- (c) ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

10.2 Cyhoeddi gweithdrefn gwyno

10.2.1 Bydd y Cwmni yn –

- (a) sicrhau bod ganddo weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn
 - (i) sut y mae'n bwriadu delio â chwynion ynglŷn â chydymffurfio â'r ymrwymadau a'r safonau a ddisgrifir yn y Polisi hwn;
 - (ii) sut y bydd yn darparu hyfforddiant i'w staff ar sut i ymdrin â'r cwynion hynny;

- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar ei wefan; a
- (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

10.3 Cyhoeddi trefniadau goruchwylio, hybu ayyb

10.3.1 Bydd y Cwmni yn –

- (a) sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer:
 - (i) goruchwylio'r modd y mae'n cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth a bennir yn y polisi hwn;
 - (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir ganddo yn unol â'r safonau hynny; a
 - (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny;
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar ei wefan; a
- (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

10.3.2 Bydd y Cwmni yn –

- (a) sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd y mae'n cydymffurfio â'r safonau llunio polisi a bennir yn y Polisi hwn;
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar ein gwefan; a
- (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

10.3.3 Bydd y Cwmni yn –

- (a) sicrhau bod ganddo drefniadau ar gyfer:
 - (i) goruchwylio'r modd y mae'n cydymffurfio â'r safonau gweithredu a bennir yn y Polisi hwn;
 - (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir ganddo yn unol â'r safonau hynny; a
 - (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny; a
- (b) chyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar ei fewnrwyd.

10.4 Llunio adroddiad blynyddol

10.4.1 Bydd y Cwmni yn llunio ac yn cyhoeddi adroddiad ("Adroddiad Blynyddol ar y Polisi Iaith Gymraeg"), yn ddwyieithog, mewn perthynas â phob blwyddyn

ariannol, sy'n delio â'r modd y bu iddi gydymffurfio â gofynion ac ymrwymadau y Polisi hwn yn ystod y flwyddyn honno.

10.5 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y bwriedir cydymffurfio â Polisi laith hwn

10.5.1 Bydd y Cwmni yn cyhoeddi'r ddogfen hon ar ei wefan gan esbonio sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â gofynion ac ymrwymadau y Polisi hwn.

10.6 Darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg

10.6.1 Bydd y Cwmni yn barod iawn i ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Polisi laith hwn.

11. Gwella'r Gwasanaeth

11.1 Bydd y Cwmni yn falch iawn o dderbyn sylwadau ac awgrymiadau gan ei gwsmeriaid ar sut i wella'r gwasanaeth dwyieithog a roddir iddynt.

11.2 Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau at Y Cyfarwyddwr Corfforaethol a fydd yn ystyried yr hyn a dderbynnir cyn cyflwyno sylwadau i'r Gweithgor laith ar unrhyw fater a fydd, ym marn y Swyddog hwnnw, yn fater y dylid ei ystyried gyda golwg ar newid neu ddiwygio'r polisi.